

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANYNYS A GYNHALIWYD YN YSGOL GYNRADD RHEWL AR NOS FAWRTH 12FED O ORFFENNAF 2016 AM 7.30 O'R GLOCH.

PRESENNOL: Y Cyngorwyr Brynle Lloyd (Cadeirydd), Gwyn Howatson, Siân Davies, Ian Hession, Deryl Roberts, Medwyn Jones, Mike Denman, Clwyd Thomas a'r Clerc.

1 YMDDIHEURIADAU: Y Cyngorydd Dewi Roberts a'r Cyngorydd Sir Ddinbych Merfyn Parry.

2. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 10fed o Fai 2016 a'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

3. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

Derbyniwyd cadarnhad oddi wrth Gyngor Sir Ddinbych bod y tipio anghyfreithiol wrth Tan-yr-Ywen ym Montuchel ar dir Tan-yr-Ywen ac nid ar dir cyhoeddus.

4. MABWYSIADU RHEOLAU AWDURDODAU LLEOL (COD YMDDYGIAD ENGHREIFFTIOL) (CYMRU) (DIWYGIO) 2016.

Penderfynwyd yr aelodau i fabwysiadu'r rheolau "Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2016".

5. CYLLID.

A. Datganiad Banc - £7,723.00.

B. Derbyniwyd cais am gefnogaeth arian ychwanegol am gostau'r estyniad Pafiliwn Rhewl gan Bwyllgor "Llanynys Community Sports Association". Penderfynwyd rhodd o £4,000.00 tuag at y costau.

C. Derbyniwyd cais trwy Gyngorydd Sir Ddinbych Merfyn Parry am bin ysbwriel yn Ffordd yr Orsaf yn Rhewl gan fod y Cyngor Sir ddim yn prynu biniau ysbwriel ychwanegol oherwydd toriadau cyllid Cyngor Sir ond cytunwyd y Cyngor Sir i'r costau gwagio'r bin ychwanegol. Penderfynwyd yr aelodau i'r Cyngor Cymuned prynu bin ysbwriel trwy Gyngor Sir Ddinbych am y gost o £393.73 cyn TAW.

6. MATERION CYNLLUNIO.

A. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi caniatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol:-

1. Lloches ceffylau yn Gors Wen, Llanynys.
2. Mynediad moduron newydd yn Telpyn Smithy, Rhewl.
3. Adeilad amaethyddol newydd yn Hafod Ynys, Rhewl.
4. Estyniad i Brÿn Afon, Rhewl.

B. Nid oedd gan yr aelodau unrhyw wrthwynebiad i'r ceisiadau cynllunio canlynol:-

1. Gwaith i 10 coed o fewn y Grŵp G1 Gorchymyn Diogelu Coed 1991 ar dir yn Rhyd-y-Byll, Rhewl.
2. Newid defnydd tir amaethyddol i ardal cwrtil domestig a chodi garej adeilad ar wahân ym Mhlas Isa', Rhewl.
3. Codi estyniad porth ar y tu blaen ac estyniad unlawr ar ochr yr annedd ym Mhlas Isa', Rhewl.
4. Codi adeilad storio ar wahân mewn cysylltiad â'r annedd yn Rhudycilgwyn, Lady Bagots Drive, Rhewl.
5. Adeiladu estyniad deulawr i ochr yr annedd yn 21 Cilgwyn, Rhewl.

7. GOHEBIAETH.

- A. Derbyniwyd, er wybodaeth, rhybudd o orchymyn gwaharddiad dros dro ar y ffordd rheng Ysgol Rhewl a Bodynys, Rhewl am dair wythnos o'r 25ain o Orffennaf 2016 er mwyn hwyluso gwaith "Wales and West Utilities" i osod peipen nwy newydd.
- B. Dosbarthwyd y Clerc gopi o'r "Reolau Ariannol Enghreifftiol (Cymru)" i'r aelodau.
- C. Derbyniwyd nifer o adroddiadau er wybodaeth.

8. UNRHYW FATER ARALL.

Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc tynnu sylw Cyngor Sir Ddinbych at y problemau canlynol:-

- A: Mae angen glanhau'r ffyrdd rhwng Rhewl a Llanynys a Rhewl a Llandyrnog.
- B. Mae yna broblem dwr yn cynyddu ar y ffyrdd uchod ar ôl y glaw yn ddiweddar.
- C. Mae angen gwagio'r cwils ym mhentref Rhewl.
- D. Mae angen torri'r glaswellt unwaith wt oar y gyffordd Bachymbyd Bach yn Rhewl oherwydd diogelwch.

9. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – Nos Fawrth 13eg o Fedi 2016 yn Ysgol Gynradd Rhewl am 7.30 o'r gloch.